

Astudiaeth Achos Themâu Trawsbynciol SEACAMS2

Gwen Holland, Swyddog TT, Y Lab Cynaliadwyedd – Gorffennaf 2019

Trosolwg Prosiect

Gweithiodd SEACAMS2 gyda'r Lab Cynaliadwyedd i fabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (LICD) fel fframwaith o'r cychwyn, er mwyn sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yn rhan o bob penderfyniad. Cyflwynwyd gweithdy tair awr 'Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol SEACAMS2' i holl staff prosiect Bangor gan y Lab Cynaliadwyedd ar y 7fed o Fehefin 2016, a chyflwynwyd sesiwn tebyg yn Abertawe. Daeth themâu i'r amlwg o'r gweithdy ym Mangor a dewiswyd ac adroddwyd ar ddangosyddion Themâu Trawsbynciol (TT) mewnol.

Flwyddyn yn ddiweddarach, ym mis Mehefin 2017, anfonwyd naw dangosydd TT mewnol gorfodol i brosiect SEACAMS2 gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), er mwyn i'r prosiect adrodd arno. Maent fel a ganlyn:

- Mabwysiadu Hyrwyddo'r Gymraeg
- Gweithgaredd sy'n cefnogi siaradwyr Cymraeg
- Datblygu Cod Eco
- Datblygu Cadwyn Gyflenwi Leol
- Datblygu Cynllun Teithio Sefydliadol a Mentrau Cludiant Cynaliadwy
- Mesurau Effeithlonrwydd Adnoddau
- Gweithgaredd Adeiladu Sgiliau Cymunedol
- Datblygu / Ymgysylltu â Phencampwr TT
- Pecyn Cymorth TT, Mekanwaith Sylfaen Llinell, Datblygu Ap

Gan fod y prosiect eisoes wedi dewis ei ddangosyddion TT ei hun yn y gweithdy LICD, ac oherwydd bod gwaith eisoes wedi cychwyn ar rai o'r targedau ychwanegol hyn yn ogystal â rhai o'r rhai uchod; bydd SEACAMS2 hefyd yn adrodd ar y dangosyddion canlynol yn yr astudiaeth achos hwn:

- Gwella Lles Staff
- Datblygu Cod Llesiant

Cyflawnwyd TT hefyd gan bartneriaid cwmni'r prosiect gyda chefnogaeth gan y Lab Cynaliadwyedd yn ystod cyfnod cychwynol y prosiect. Tynnwyd y TT allanol (cwmnioedd) oddi wrth y prosiect ym mis Rhagfyr 2017, a throsglwyddwyd i'w cyflawni gan *SMART Innovation* o'r pwynt hwn ymlaen. Bydd astudiaethau achos TT o'r cwmnioedd allanol a gwblhawyd eu gwelliannau cyn mis Rhagfyr 2017 yn ymddangos yn atodiad y prif astudiaeth achos hwn.

Mae'r holl ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â TT sy'n berthnasol i brosiect SEACAMS2 ar gael i staff a phartneriaid, ac mae modd eu canfod ar dudalennau SEACAMS2 a ERDF Lab Cynaliadwyedd: <http://planet.cymru/cy/seacams2/>. Cafodd y wybodaeth hwn hefyd ei e-bostio at bob aelod o staff ar ddechrau'r prosiect.



Dangosyddion TT Gorfodol SEACAMS2

Mabwysiadu / Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

Mae gwefan SEACAMS2, deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebion yn ddwyieithog ac mae pob aelod o staff wedi derbyn cefnogaeth i greu a defnyddio llofnodion e-bost a hysbysiadau 'allan o'r swyddfa' dwyieithog. Cynhaliwyd yr holl weithgareddau recriwtio a dethol yn unol â Chod Ymarfer Iaith Gymraeg Prifysgol Bangor ar gyfer Penodiadau Staff, a rhoddwyd cyfle i bob ymgeisydd a wahoddwyd i gyfweiliad swydd gael eu cyfweld yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Daeth themâu'r iaith Gymraeg a llesiant staff i'r amlwg o Weithdy LICD SEACAMS2. Felly, dynodwyd y defnydd o'r Gymraeg a gwella sgiliau iaith Gymraeg staff fel targed TT mewnol a flaenoriaethwyd ar ddechrau'r prosiect, gan gyfrannu at nod LICD ' Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. I gychwyn, cynhaliwyd arolwg i sefydlu gallu gwaelodlin staff a'i diddordeb mewn dysgu Gymraeg.

Trefnwyd gwersi iaith Gymraeg yng Nghanolfan Forol Cymru (CFC) i sicrhau bod aelodau staff SEACAMS2 yn gallu mynychu'n hawdd. Dechreuodd y gwersi ym mis Gorffennaf 2016, a threfnwyd y gwersi bob prynhawn Llun rhwng 3.30pm a 5pm, gyda chwe aelod o staff SEACAMS2 yn arwyddo i fyny ar y dechrau. Teimlai pob un o'r chwech cyfranogwr cychwynnol fod y gwersi Cymraeg yn ddefnyddiol, tra nododd dri gwelliant o 'ddim' i 'gyfyngedig' ar ôl dim ond pum wythnos. Parhaodd pump o gyfranogwyr gyda'r gwersi ar ôl y cyfnod cychwynnol o bum wythnos, tra ymunodd dau aelod o staff arall yn ddiweddarach.

O ganlyniad i gynnydd yn y llwythi gwaith yn ystod y prosiect, gostyngodd y niferoedd dros y gwanwyn, ac erbyn mis Mehefin 2017 doedd neb o SEACAMS2 bellach yn gallu mynychu'r gwersi Cymraeg. Ym mis Medi 2017 fodd bynnag, ymunodd dau aelod arall o staff SEACAMS2 y gwersi Cymraeg, tra bod y cynnig ar gael i holl aelodau staff trwy gydol y prosiect. Roedd y dosbarthiadau yn MCW hefyd ar agor i holl staff y Gwyddorau Eigion, ac maent yn etifeddiaeth bositif o fenter SEACAMS2.

Meddai Susan Allender, Rheolwr Labordy SEACAMS2,

"Roedd hi'n wych gallu dysgu rhywfaint o Gymraeg sylfaenol mewn amgylchedd cyfeillgar ac mewn lleoliad cyfleus."

Gwnaethpwyd y gwersi Cymraeg yn hygyrch i holl aelodau staff SEACAMS2 trwy gydol y prosiect, gyda deg aelod o'r tîm yn gwella eu sgiliau iaith Gymraeg yn weithredol yn ystod oes y prosiect.

Gweithgaredd sy'n cefnogi siaradwyr Cymraeg

Esboniodd aelodau staff yn ystod Gweithdy LICD y byddai'n well ganddynt ddysgu ac ymarfer ymadroddion bob dydd yn Gymraeg i'w helpu wrth fynychu digwyddiadau ac wrth weithio gyda chleientiaid, yn hytrach na dysgu Cymraeg ffurfiol er mwyn eistedd arholiadau.



O ganlyniad, sefydlwyd cynllun mentora anffurfiol rhwng aelodau staff i gyd-fynd â'r gwersi Cymraeg yn CFC.

Nod y cynllun mentora oedd i baru aelod o staff a oedd eisiau ymarfer ychydig o Gymraeg gydag aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg rhugl, i helpu i annog dysgwyr i geisio ymadroddion newydd a'u gwneud i deimlo'n fwy cyfforddus. Cynhaliwyd arolwg i ofyn a os oedd gan staff ddiddordeb mewn cymryd rhan a dechreuodd y cynllun ar yr 8ed o Fedi 2017.

Ymunodd pedwar aelod o dîm SEACAMS2 fel mentoriaid a naw fel dysgwyr. Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys staff o brosiect BlueFish a'r prosiect ISPP, a oedd hefyd yn cymryd rhan yn y gwersi Cymraeg yn CFC.

Dywedodd Jennifer Roberts, Uwch Swyddog Clerigol SEACAMS2,

"Rwy'n mwynhau'r profiad, gan ei bod yn gyfle i ddysgu rhywbeth newydd am fy nghydweithwyr. Bob dydd roeddwn yn eu gweld, byddwn yn gofyn cwestiwn gwahanol am eu bywydau. Roedd rhai dysgwyr yn fwy ymroddgar nag eraill, sydd i'w ddisgwyl."

Roedd staff hefyd wedi mynegi diddordeb mewn cael y cyfle i ymarfer Cymraeg mewn lleoliad cymdeithasol, ac felly awgrymwyd bore coffi Cymraeg. Fodd bynnag, gan mai nod LCD yw hyrwyddo 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', roedd hefyd yn gyfle i ddathlu amrywiaeth y prosiect a gwahanol ddiwylliannau.

O ganlyniad, trefnwyd Bore Coffi Amlieithog yn CFC dydd Gwener y 18fed o Fai 2018 am 10:45yb, i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ac i ddathlu amrywiaeth y prosiectau i gyd. Daeth staff a myfyrwyr â bwyd a diod i'w rannu o'u gwlad, rhanbarth neu bentref, a dysgu ymadrodd newydd mewn iaith neu dafodiaith wahanol. Roedd y bore coffi yn cynnwys staff o SEACAMS2, ISPP a BlueFish, gyda thua 35 aelod o staff yn cymryd rhan yn ogystal a myfyrwyr.





Datblygu Cod Eco

Crëwyd Cod Eco penodol i'r prosiect, ac fe'i harddangosir yn yr ardaloedd cymunedol yn y labordai a swyddfeydd yn y ddau safle, tra ei fod hefyd ar gael yn rhwydd ar-lein. Mae'r Cod Eco yn boster sy'n atgoffa staff, partneriaid, myfyrwyr ac ymwelwyr am arferion da amgylcheddol; yn benodol gwastraff, trafniadaeth, prynu, dŵr, ynni, bioamrywiaeth a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Cod Eco



Gwastraff	
Cod Eco	Byddwn yn atal, lleihau, atgyweirio, aildddefnyddio ac ailgylchu ein gwastraff lle bynnag bosib
Gweithred	<ul style="list-style-type: none"> Ailgylchir holl ddeunyddiau a ddefnyddir yn cynnwys papur, metel, gwyr, plastig a bwyd Sicrhau bod arwyddion digonol ar gyfer ailgylchu a bod biniau wedi eu lleoli'n gyfleus ar draws yr adeilad
Trafniadaeth	
Cod Eco	Annog mwyr o ffyrdd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd i deithio
Gweithred	<ul style="list-style-type: none"> Lleihau'r angen am deithio lle bo modd twy ddefnyddio TGCh. Defnyddio a hyrwyddo cludiant cyhoeddus a llybrau beicio Defnyddio fideo-gynadledda a thelegynadledda yn lle cael cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb Hyrwyddo rhannu ceir lle bo hynny'n bosibl
Prynu	
Cod Eco	Byddem yn prynu cynnyrch a deunyddiau sydd ddim yn niweidio'r amgylchedd pan yn cael eu gwneud neu eu defnyddio
Gweithred	<ul style="list-style-type: none"> Prynu cynnyrch wedi ei aildddefnyddio/ailgylchu lle bynnag bosib Cadw at weithdrefnau caffael cynaliadwy ein sefydliad
Dŵr	
Cod Eco	Byddwn yn arbed dŵr lle bynnag bosib
Gweithred	<ul style="list-style-type: none"> Diffodd tapiau pryd bynnag nad ydynt yn cael eu defnyddio Rhoi gwybod am unrhyw wastraff dŵr, e.e. tapiau sy'n difaru Peidio gorlenw'r tegell
Ynni	
Cod Eco	Byddwn yn lleihau'r defnydd o ynni
Gweithred	Byddwn yn: <ul style="list-style-type: none"> Troi gwres / golau i ffwrdd/lawr pan nad oes eu hangen Cau bob drws / ffenestr yn y gaeaf; Diffodd offer trydanol pan fo'n briodol Defnyddio'r grisiau yn lle'r lifft
Bioamrywiaeth	
Cod Eco	Byddwn yn cynyddu bioamrywiaeth y safle, a'r ardal o'i amgylch
Gweithred	<ul style="list-style-type: none"> Cymryd rhan mewn digwyddiadau bioamrywiaeth y Brifysgol
Codi Ymwybyddiaeth	
Cod Eco	Byddwn yn hysbysu ein holl ymwelwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol ynglŷn a sut yr ydym yn edrych ar ôl ein hamgylchedd
Gweithred	<ul style="list-style-type: none"> Ble y gallwn, byddwn yn rhoi hysbysadau a phosteri o amgylch y safle e.e. y Cod Eco yma Darparu gwybodaeth ar wefan ac mewn deunyddiau eraill



Eco Code



Waste	
Eco Code	We will prevent, reduce, repair, reuse and recycle to minimise waste wherever possible
Action	<ul style="list-style-type: none"> Recycle all materials used, including paper, metals, glass, plastic and food Ensure there is adequate signage for recycling and that bins are conveniently located across the building
Transport	
Eco Code	Encourage more environmentally friendly ways to travel
Action	<ul style="list-style-type: none"> Reduce need for travel where possible through the use of ICT Utilise, promote and enhance public transport and cycle routes Use Videoconference and Teleconference Promote car sharing wherever possible
Purchasing	
Eco Code	We will buy products and materials that do not harm the environment when they are made or used
Action	<ul style="list-style-type: none"> Purchase reused/recycled products wherever possible Adhere to our institutions sustainable procurement procedures
Water	
Eco Code	We will save water wherever possible.
Action	<ul style="list-style-type: none"> Turn off taps whenever not in use; Report any water wastage, e.g. dripping taps Don't overflow the kettle
Energy	
Eco Code	We will reduce our energy consumption
Action	We will: <ul style="list-style-type: none"> Turn off/down all heating/lighting when not needed Close all doors/windows in winter Turn off electrical equipment when appropriate Use the stairs instead of the lift
Biodiversity	
Eco Code	We will increase the biodiversity of the site and its surroundings
Action	<ul style="list-style-type: none"> Participate in the University biodiversity events
Raising Awareness	
Eco Code	We will inform all our visitors and the general public about how we are looking after our environment
Action	<ul style="list-style-type: none"> Place prominent notices and posters around the organisation premises e.g. this Eco Code Provide information on our website and any other material



Datblygu Cadwyn Gyflenwi Lleol

Penderfynodd SEACAMS2 beidio â chreu cyfeiriadur busnes morol ac arfordirol, gan fod Ynni Morol Cymru eisoes wedi creu un. Credwyd y byddai creu rhywbeth tebyg yn wastraff adnoddau ac yn risg dadleoli, pan allai busnesau gael eu cyfeirio at yr un sydd eisoes yn bodoli mor hawdd: <https://www.marineenergywales.co.uk/cymraeg/>.

Mae digwyddiadau SEACAMS2 wedi darparu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio uniongyrchol rhwng busnesau, ac mae staff SEACAMS2 wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau allanol, lle maent wedi defnyddio eu gwybodaeth o'r sector i helpu cysylltu cwmnïau cydweithredol â darparwyr gwasanaethau masnachol. Mynychwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau allanol gan gynnwys cyfarfodydd, cyflwyniadau, gweithdai, dadleuon panel, cynadleddau, arddangosfeydd a gweithgareddau ymgysylltu eraill.

Datblygu Cynllun Teithio Sefydliadol a Mentrau Cludiant Cynaliadwy

Cyflwynwyd y cysyniad o gyfiawnhad teithio ar ddechrau'r prosiect, ac felly gofynnwyd i staff gyfiawnhau'r math o gludiant ac ati wrth archebu teithio. Eglurwyd i staff ar y dechrau, wrth gyfiawnhau'r rhesymau dros deithio, nad yw'r ystyriaethau yn cael eu cyfyngu i bryderon amgylcheddol, ond dylent ystyried pob piler o gynaliadwyedd, gan gynnwys rhesymau ariannol a chymdeithasol. Er enghraifft, gallai dewis yr opsiynau amgylcheddol / ariannol mwyaf fod yn niweidiol i iechyd a lles unigolyn os yw hyn yn ei gwneud yn ofynnol i staff orfod treulio gormod o amser oddi cartref.

Hyrwyddwyd y defnydd o TGCh (skype, fideo gynadledda ac ati) ar ddechrau'r prosiect, a chrëwyd taenlen ganolog i gofnodi defnydd TGCh gan bob aelod o staff, gan nodi'r milltiroedd a arbedwyd trwy beidio â theithio i gyfarfodydd. Anfonwyd nodyn atgoffa yn rheolaidd i staff am bwysigrwydd llenwi'r daenlen TGCh trwy gydol oes y prosiect.

Mae SEACAMS2 hefyd yn hyrwyddo teithio cynaliadwy i bartneriaid ac ymwelwyr. Mae wal fideo yn CFC, sy'n arddangos amserlenni bws, ac mae yna adran ar dudalen gwe SEACAMS2 sy'n hysbysu pobl o drafnidiaeth gyhoeddus a pharcio / storio beiciau yn CFC. Mae'r prosiect hefyd yn hyrwyddo ac yn annog staff i gymryd rhan yng nghynllun Beicio i Waith Prifysgol Bangor, a gellir cael manylion amdanynt ar y [ddolen](#).

Mesurau Effeithlonrwydd Adnoddau

Mae gan Brifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe System Reoli Amgylcheddol achrededig ISO4001: 2015, ac felly maent wedi ymrwymo i effeithlonrwydd adnoddau a gwelliant parhaus o safbwynt trefniadol. Felly, mae'n rhaid i SEACAMS2 gadw at arferion a gweithdrefnau rheoli amgylcheddol y ddau sefydliad.

Canolbwyntiodd y Cod Eco a grëwyd ac arddangoswyd mewn ardaloedd cymunedol yn swyddfeydd a labordai SEACAMS2 ar effeithlonrwydd adnoddau o ddydd i ddydd. Rhoddwyd hefyd bosteri ailgylchu i fyny yn y safleoedd ailgylchu ar draws CFC i hysbysu staff, hyrwyddo ailgylchu, a sicrhau bod ailgylchu o ansawdd gwell yn cael ei gasglu.



Gwellodd ansawdd a swm yr ailgylchu fel canlyniad i'r posteri, ond parhaodd ailgylchu mewn rhai meysydd fel labordai i fod yn broblemus am resymau logistaidd.

Crëwyd Rhestr Wirio Digwyddiadau Cynaliadwy SEACAMS2 i gael ei ddefnyddio gan staff wrth drefnu digwyddiadau a chyfarfodydd mawr. Mae'r rhestr wirio yn ddwyieithog a gellir ei llenwi yn y naill iaith neu'r llall ac fe'i defnyddiwyd trwy'r prosiect ar gyfer unrhyw ddigwyddiad; mae staff wedi cael eu hatgoffa'n rheolaidd am ei bwysigrwydd. Mae'r rhestr wirio yn gyfres o gwestiynau i'w hateb gan drefnydd y digwyddiad yn ystod y cyfnod paratoi. Mae cwestiynau'n canolbwyntio'n benodol ar ganlyniad y digwyddiad, dyddiad ac amseriad, lleoliad a hygyrchedd, gwastraff posibl a gynhyrchir, dwyieithrwydd ac arlwyyo (gyda phwyslais ar iechyd, ardal ac effeithlonrwydd adnoddau).

Canolbwyntiodd Prifysgol Bangor ei sylw hefyd ar wastraff labordai yn ystod 2018-19, ac roedd SEACAMS2 yn bartner gweithredol ac yn ysgogydd i'r fenter hon. Ym mis Chwefror 2018, casglodd staff SEACAMS2 samplau o'r plastigion a ddefnyddiwyd yn labordai CFC ar ran Gydlynedd Gwastraff Campws y Brifysgol, ac anfonwyd yn ddiweddarach i gontractwyr ailgylchu'r Brifysgol i arbrofi a oedd modd ei hailgylchu. Cynlluniwyd peilot ailgylchu plastig o labordai ar gyfer Mehefin 2018, ond yn anffodus roedd problem ar yr ochr brosesu gyda'r samplau plastig yn hollti ar y llinell cyn cael eu prosesu. O ganlyniad, sefydlwyd gweithgor Ailgylchu Plastig Labordai ar ddiwedd 2018 i edrych ar ymarferoldeb cael system gasglu ar wahân, er mwyn sicrhau bod unrhyw fenter newydd yn addas. Roedd y gweithgor yn cynnwys aelodau staff o wahanol brosiectau a ariannwyd gan Ewrop, a oedd yn cynnwys SEACAMS2, BlueFish, SNAP a'r Ganolfan Pysgod Cregyn. Casglwyd mwy o samplau plastig yn gynnar yn 2019, a daethom o hyd i gwmni a oedd yn gallu ailgylchu'r deunyddiau. Cynhaliwyd cynllun peilot am bythefnos rhwng y 7fed o Fehefin a'r 21ain o Fehefin 2019 i feintoli'r deunydd er mwyn symud ymlaen gyda chasgliad ar wahân. Disgwylir i gontract ailgylchu plastig o labordai fod mewn lle ar y 1af o Awst 2019.

Gweithgaredd Adeiladu Sgiliau Cymunedol


Ystyrir adeiladu sgiliau, yn yr achos, i gynnwys rhannu gwybodaeth i helpu cwsmeriaid, myfyrwyr, aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol eraill i ddatrys problemau, datblygu dulliau newydd, goresgyn materion, dysgu sgiliau newydd neu ddatblygu sgil ymhellach. Nid oes raid i'r sgiliau hyn fod yn wyddonol o reidrwydd, gallent hefyd gynnwys rhannu'r wybodaeth sydd ar gael eisoes, yr ymchwil sydd eisoes wedi'i gynnal, ble i ddod o hyd iddo, sut i symud ymlaen â phrosiect penodol, pa beiriannau technegol sy'n gweithio, pa dechnegau ymchwil sydd sy'n gysylltiedig â hyn, pa gwmnïau sy'n gwneud yr hyn, a sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer cyflogaeth. Gan fod y TT yn cael ei ddanfôn yng nghyd-destun LICD, mae SEACAMS2 wedi cymryd y dangosydd hwn i hefyd gynnwys hyrwyddo a chefnogi unrhyw gyfraniadau y gellir eu gwneud i'r gymuned o dan y nod 'Cymru o Gymunedau Cydlynus'.

Mae SEACAMS2 yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned / y cyhoedd, mae'r rhan fwyaf yn ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth, tra bod rhai yn fwy rhyngweithiol. Mae Canolfan Morol Cymru hefyd yn agored i fusnesau, lle gallent ddefnyddio ystafelloedd cyfarfod, labordai a chyfleusterau llong yn rhad ac am ddim.



Mae SEACAMS2 wedi creu rhestr o gyflwyniadau, gweithdai, profiad gwaith, cyfarfodydd a chyfweiliadau a gynhaliwyd yn ystod oes y prosiect, yn ogystal â rhestr o gynadleddau ac arddangosfeydd y bu'r prosiect yn bresennol ynddynt (mae'r rhestr hon mewn dogfen ar wahân yn hytrach na yn yr astudiaeth achos). Nid yw'r rhestr yn cynnwys unrhyw weithgareddau a gyflawnir gyda phartneriaid Ymchwil a Datblygu (YaD) gan fod y dangosydd hwn yn cyfeirio at ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Yn ystod oes y prosiect, cyfrannodd SEACAMS2 at dros 45 o ddigwyddiadau / gweithgareddau cymunedol.

Arddangosfa Venue Cymru – Mehefin 2018



Fideo addysgol am y llanw ynghyd â Matt Lewis, NRN-LCEE– Awst 2018



SWIM TO ENLLI
Unlisted

Gweithdy Plastig yn y Cefnfor gyda Ysgol Gynradd Tudweiliog - Tachwedd 2018



Cynhadledd Fusnes ION Gogledd Cymru – Tachwedd 2018



Cyflwyniad i Gymdeithas Hynafiaethwyr Ynys Môn - Ionawr 2019



Gweithdy Rhanddeiliaid SEACAMS2, Caerdydd – Ionawr 2019



Datblygu / Ymgysylltu â Pencampwyr CCT

Credai SEACAMS2 y dylai Cynaliadwyedd a TT fod yn ymdrech tîm a dylid cael ei ymgorffori yn llawn gan y prosiect, felly penderfynwyd, gan fod Swyddog TT dynodedig gan y prosiect, y byddai'n fwy gwerthfawr sicrhau bod y tîm cyfan yn ymgysylltu'n llawn â TT yn hytrach na chael pencampwr TT.

Mae holl dîm SEACAMS2 wedi ymgysylltu â TT yn ystod oes y prosiect. Mae aelodau staff wedi mynychu gwersi Cymraeg, wedi gwirfoddoli fel mentoriaid a dysgwyr Cymraeg, wedi creu llofnodion e-bost dwyieithog, wedi mynychu Bore Coffi Amlieithog, wedi mynychu sesiwn 'Mindfulness', wedi cyfrannu at weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a meithrin sgiliau, wedi cysylltu cwmnïau sy'n cydweithio ac wedi rhwydweithio, wedi ymgyfarwyddo eu hunain a glynu wrth y Cod Eco a Cod Llesiant, wedi llenwi'r Rhestr Wirio Digwyddiadau Cynaliadwy, wedi ystyried yr angen i deithio a diweddarau'r daenlen TGCh fel bo'r angen. Yn ogystal, mae SEACAMS2 wedi bod yn bartner hanfodol i'r Brifysgol allu symud ymlaen gyda rheoli gwastraff cynaliadwy yn y labordai.

Trefnodd y Lab Cynaliadwyedd Rwydwaith Llesiant Cenedlaethau'r Cyfredol a Dyfodol i bencampwyr prosiectau fynychu, rhannu syniadau, a mynd i'r afael ag unrhyw faterion; mynychodd SEACAMS2 y cyfarfodydd hyn.

Pecyn Cymorth CCT, Mecanwaith Sylfaen Llinell, Datblygu'r App

Crëwyd dogfen Adolygiad Sylfaenol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer defnydd gyda chleientiaid SEACAMS2. Defnyddiwyd y ddogfen yn y cyfarfod cychwynol gyda'r cwmni (naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn) ac fe'i llenwyd yn rheolaidd gan y swyddog TT tra'r oedd y cleient yn gwneud y gwaith. Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, arwyddwyd y ddogfen gan y cleient fel cadarnhad bod y gwaith wedi'i gyflawni. Defnyddiwyd y ddogfen hon yn ddiweddarach i greu astudiaeth achos byrrach dwyieithog i'w ddefnyddio ar wefannau. Bydd yr astudiaethau achos byr hyn yn ymddangos yn yr atodiad.

Creodd y Lab Cynaliadwyedd gronfa ddata hefyd i storio gwybodaeth TT cleientiaid yn ganolog a chynhyrchu adroddiadau. Fodd bynnag, ni chafodd y gronfa ddata ei ddatblygu'n llawn, gan fod y targedau allanol wedi eu tynnu oddi ar y prosiect ar ddiwedd 2017, ac felly nid oedd angen y gronfa ddata bellach.

Dangosyddion TT Ychwanegol SEACAMS2

Gwella Lles Staff

Llesiant staff oedd y thema allweddol arall a ddaeth i'r amlwg o Weithdy LICD. Mae gwneud y gorau o les meddyliol a chorfforol, a chymryd camau cadarnhaol er budd iechyd y dyfodol, wrth gwrs, yn dod o dan y nod 'Cymru Iachach'.

Trefnwyd Sesiwn Blasu 'Mindfulness' ar gyfer staff SEACAMS2 yn CFC ar yr 26ain o Hydref 2016. Mynychodd wyth aelod o staff y sesiwn blasu, tra bod un aelod o staff wedi mynd ar gwrs 'Mindfulness' fel canlyniad.



Cynigiwyd sesiwn 'Ysgrifennu er Lles' hefyd i staff y prosiect, ond ar y pryd nid oedd digon o ddi-ddordeb i drefnu sesiwn penodol i SEACAMS2, gan mai dim ond pedwar aelod o staff oedd wedi mynegi diddordeb.

Datblygu Cod Llesiant

Crëwyd Cod Llesiant dwyieithog yn benodol i'r prosiect a gafodd ei arddangos yn yr ardaloedd cymunedol ar draws y ddwy swyddfa, tra ei fod hefyd ar gael ar-lein. Nod y Cod Llesiant yw i sicrhau fod ffocws cytbwys ar agweddau cymdeithasol y prosiect yn ogystal â'r rhai amgylcheddol. Mae'r poster yn debyg iawn i'r Cod Eco gan ei fod yn atgoffa staff, partneriaid, myfyrwyr ac ymwelwyr am bwysigrwydd lles, ac mae wedi'i strwythuro yn unol â'r nodau cymdeithasol fel y maent yn ymddangos yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cod Llesiant felly'n cynnwys rhan ar Iechyd, Cydraddoldeb, Gweithle Cydlynol, ac Iaith Gymraeg a Diwylliant.

Cod Llesiant

Iechyd	
Cod Llesiant	Annog staff ac ymwelwyr i ofalu am eu lles meddyliol a chorfforol
Gweithred	<ul style="list-style-type: none"> Annog staff i gymryd seibiant yn rheolaidd oddi wrth eu sgriniau cyfrifiaduwr yn enwedig am 10:45yb am baned a sgwrs Hwyluso a hyrwyddo gweithgareddau i wella iechyd meddwl a chorfforol e.e. sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar Annog staff i fynd am dro yn ystod amser cinio Cyngori staff i beidio ag ymateb i e-byst ac ati ar benwythnosau a phan ar wyliau blynyddol
Cydraddoldeb	
Cod Llesiant	Dileu unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu, brawychu neu eriedigaeth yn y gweithle
Gweithred	<ul style="list-style-type: none"> Trin ein holl weithwyr a'r rhai sy'n ceisio am swyddi yn deg a chyfartal waeth beth fo'u hoed, anabledd, allbennu rhyw, statws priodasol/partneriaeth sifil, statws beichiogrwydd/ mamolaeth/ teulu, hil (sy'n cynnwys tarddiad ethnig, lliv, cenedligrwydd, a tharddiad cenedlaethol), crefydd, cred, rhyw neu gogwydd Cynnig gweithio hylbyg lle bynnag y bo modd
Gweithle Cydlynol	
Cod Llesiant	Sicrhau bod yr holl staff yn cael y wybodaeth diweddera ac i dderbyn adborth
Gweithred	<ul style="list-style-type: none"> Trefnu cyfarfodydd tîm rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael gwybodaeth diweddera Annog staff i gynnig adborth ar unrhyw agwedd o'r project Annog cydweithredu ar draws prosiectau ac adrannau
Iaith a Diwylliant	
Cod Llesiant	Sicrhau fod y project yn gweithredu yn hollol ddwyieithog ac yn annog defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle
Gweithred	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau fod ein holl deunyddiau yn ddwyieithog Annog ein staff i wella ei sgiliau Gymraeg

Wellbeing Code

Healthy	
Wellbeing Code	Encourage staff and visitors to take care of both their mental and physical wellbeing
Action	<ul style="list-style-type: none"> Encourage staff to take regular breaks from their computer screens in particular at 10:45 for Coffee and a chat Facilitate and promote activities to improve mental and physical health e.g. mindfulness Encourage staff to not respond to e-mails etc. on weekends and when on annual leave
Equal	
Wellbeing Code	Eliminate any form of discrimination, harassment, intimidation or victimisation in the workplace
Action	<ul style="list-style-type: none"> Ensure that we treat all employees and job applicants fairly and equally regardless of age, disability, gender reassignment, marriage/ civil partnership status, pregnancy/ maternity/ family status, race (including ethnic origin, colour, nationality and national origin), religion, belief, sex (gender) or sexual orientation Offer flexible working whenever possible
Cohesive Workplace	
Wellbeing Code	Ensure that all staff are up-to-date and are able to provide feedback
Action	<ul style="list-style-type: none"> Arrange regular team meetings to ensure all members of staff are up-to-date Encourage staff to provide feedback on any aspect of the project Encourage cross-project/department collaborations
Welsh Language & Culture	
Wellbeing Code	Operate in a fully bilingual manner and encourage the use of the Welsh language in the workplace
Action	<ul style="list-style-type: none"> Ensure all materials are fully bilingual Encourage staff to improve their Welsh language skills

Derbyniwyd SEACAMS2 NodSiarter 'Prosiect Ymrwymedig i Gynaliadwyedd " y Lab Cynaliadwyedd ar y 19eg o Orffennaf 2019.



Atodiad: Astudiaethau Achos Cleientiaid Allanol

Tidal Lagoon Power Ltd. (TLP)

Hyrwyddo llesiant pobl nawr ac i'r dyfodol gyda Tidal Lagoon Power Ltd.



Ffurfiwyd Tidal Lagoon Power (TLP) yn 2011 i ddatblygu, adeiladu a rhedeg gorsafoedd pŵer morlynnoedd llanw yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Ar hyn o bryd maent wrthi'n datblygu cyfres o chwe morlyn llanw i gwrdd â hyd at 8% o'r galw am drydan yn y Deyrnas Unedig (digon i bweru oddeutu 30% o gartrefi), yn ogystal ag edrych ar ddatblygu nifer o brosiectau dramor mewn gwledydd fel Canada, Ffrainc, India a Mecsico.

Gan mai ynni adnewyddadwy yw ffocws eu busnes dyw'r ffaith fod yr amgylchedd yn uchel ar yr agenda ddim yn syndod. Serch hynny, gydag arloesi, cyd-weithio, ysbrydoli a meithrin yn egwyddorion craidd mae cynaliadwyedd yn agos at galon y cwmni ac yn dangos eu bod o ddifri am fynd i'r afael â phedwar piler cynaliadwyedd – yr amgylchedd, yr economi, cymdeithas a diwylliant.

Fel y byddech yn ei ddisgwyl gan gwmni o'r safon hwn mae gan TLP amryw o bolisiâu a datganiadau yn eu lle, sy'n cael eu hadolygu bob 18 mis. Yn fwy rhyfeddol efallai, gan eu bod wedi ei lleoli yng Nghaerloyw, yw'r ffaith fod TLP yn annog defnyddio'r Gymraeg drwy lawer o'u gweithgareddau ac wrth gymryd rhan yn y cyfryngau yng Nghymru. Mae'r cwmni hefyd wedi ymrwymo i wella lles eu staff ac i ymgysylltu â'r gymuned.

Fel rhan o'r bartneriaeth gyda SEACAMS 2 a'r Lab Cynaliadwyedd mae TLP wedi mabwysiadu 'tagline' Cymraeg sy'n cael ei ddefnyddio i hyrwyddo'r cwmni ac maent wedi gwneud yn siŵr fod mwyafrif eu gwefan ar gael yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Mae'r wefan yn ddwyieithog erbyn hyn, sy'n dipyn o gamp.

Mae TLP hefyd wedi trefnu Diwrnodau Amgylcheddol lle mae staff yn cael diwrnodau gwirfoddoli i helpu prosiectau amgylcheddol; y diweddaraf, oedd cyfle i gefnogi rheoli



cynefinoedd gwerthfawr gyda Natural England yn gynharach eleni. Mae TLP hefyd wedi cyflwyno cynlluniau llesiant newydd yn y gwaith, sy'n cynnwys sesiwn yoga amser cinio ar y safle, sesiwn myfyrdod ar y safle ar ôl gwaith, ac maent wedi creu ystafell myfyrio gyda'r holl gôr ynddi, sydd ar gael unrhyw amser.

Yn sgîl y gwaith gyda'r Lab Cynaliadwyedd maent hefyd wrthi'n datblygu Polisi Cyfle Cyfartal a Pholisi Iaith Gymraeg fydd ar gael yn y dyfodol agos gan ddilyn y ddau dempled baratowyd iddynt.

TLP yw'r cwmni cyntaf sydd yn gweithio gyda SEACAMS2 i dderbyn Nod Siarter Y Lab Cynaliadwyedd 'Tuag at Ddyfodol Cynaliadwy', ac rydym yn gobeithio parhau i weithio gyda nhw am flynyddoedd i ddod. Maent yn ysbrydoliaeth i eraill ac yn enghraifft o'r hyn y gall ac y gallai busnesau ei wneud.

Roedd Catrin Jones, Rheolwr Polisi a Strategaeth TLP yn ddweud:

"Rydym yn falch iawn o fod y cwmni cyntaf sy'n gweithio gyda SEACAMS i dderbyn Marc Siarter 'Gweithio at Ddyfodol Cynaliadwy' y Lab Cynaliadwyedd. Mae Tidal Lagoon Power yn gefnogol iawn o'r gwaith arloesol sydd yn digwydd yng Nghymru wrth roi datblygiad cynaliadwy ar waith ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Gyda morlyn llanw arloesol a diwydiant cysylltiedig wedi'i angori yng Nghymru ym Mae Abertawe, a phrosiectau pellach yng Nghymru, rydym eisiau integreiddio'r Nodau Llesiant a'r Ffyrdd o Weithio i'r hyn rydym yn ei wneud ac yn gobeithio gweithio gyda'r Lab Cynaliadwyedd i sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus ac yn adeiladu ar y Marc Siarter 'Gweithio at Ddyfodol Cynaliadwy.'"

Wave Hub

Wave Hub – yn gweithio tuag at ddyfodol cynaliadwy



Mae Wave Hub Ltd. yn rheoli safleoedd prawf yn y môr er mwyn datblygu technoleg ynni adnewyddadwy morol ymhellach. Fe'i sefydlwyd i helpu datblygwyr ynni gwynt ar y môr, tonnau, a llanw ledled y byd i brofi eu technoleg o dan amodau'r môr agored. Menter fach



Yw Wave Hub sydd wedi'i leoli yn Hayle, Cernyw, gydag is-adran llai yn Sir Benfro. Fe'i ffurfiwyd yn ôl yn 2003, cafodd ganiatâd angenrheidiol gan lywodraeth y DU yn 2007 ac fe'i comisynwyd yn llawn yn 2012.

Mae cynaliadwyedd yn ganolog i'r ffordd mae Wave Hub yn gweithredu, gan mai prif amcan y cwmni yw helpu datblygwyr ynni o'r gwynt, tonnau, a llanw ledled y byd i brofi eu technoleg ynni adnewyddadwy; mae hyn yn hyrwyddo defnyddio pŵer adnewyddadwy naturiol yn hytrach na thanwydd ffosil.

Mae Wave Hub wedi ymrwmo i gynaliadwyedd ar bob lefel ac maent wedi ffurfioli eu harferion cynaliadwy mewn polisiau a datganiadau, sy'n cael eu monitro a'u adolygu'n flynyddol. Mae holl daflenni, straeon newyddion a datganiadau i'r wasg ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac mae holl dudalennau is-adran Sir Benfro ar y wefan hefyd yn gwbl ddwyieithog. Mae'r cwmni'n gweithio'n agos gyda sefydliadau, cymunedau a rhanddeiliaid eraill wrth wneud penderfyniadau hirdymor, ac mae'n ymrwymedig i les ei staff.

Fel rhan o'u gwaith gyda SEACAMS2, mae Wave Hub wedi ymrwmo i wella ei arferion gwaith ymhellach gyda chymorth Y Lab Cynaliadwyedd.

Ers gweithio gyda SEACAMS2 a'r Lab Cynaliadwyedd, mae Wave Hub wedi ffurfioli eu gweithdrefnau gweithio-hyblyg trwy greu Datganiad Gweithio Hyblyg, maent wedi creu ac arddangos Côt Eco yn eu swyddfeydd, ac maent wedi trefnu ymgysylltiadau â rhanddeiliaid.

O ganlyniad i wneud gwelliannau pellach i'w cynaliadwyedd, mae Wave Hub wedi derbyn NodSiarter 'Tuag at Ddyfodol Cynaliadwy' y Lab Cynaliadwyedd. Mae Wave Hub yn enghraifft wych o gwmni sy'n cymryd cynaliadwyedd o ddifri, ac mae wedi bod yn bleser gweithio a hwy.

Tocado

Tocado –ffurfioli ei arferion cynaliadwyedd helaeth



Mae Tocardo yn ddatblygwr tyrbîn llanw ac yn arweinydd byd-eang mewn datrysiadau ynni llanw, a ffurfiwyd yn 2008. Fe'i sefydlwyd ac mae'n dal i fod yn seiliedig yn yr Iseldiroedd, ac



ar hyn o bryd mae'n paratoi i gael swyddfa'r DU (Cymraeg) yn y flwyddyn nesaf . Pwrpas craidd y cwmni yw i ddatblygu datrysiadau busnes i wneud y mwyaf o botensial ynni llanw ledled y byd.

Mae Tocardo felly wedi ei ymrwymo'n amlwg i gynaliadwyedd amgylcheddol, gan mai ei brif bwrpas yw i wneud y mwyaf o ynni llanw adnewyddadwy. Eu nod felly yw i gyfrannu at ynni glân, cynaliadwy a rhagweladwy. Fodd bynnag, mae'r cwmni'r un mor ymrwymedig i gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae gan Tocardo nifer o bolisiau ar waith megis Polisi Amgylcheddol a Pholisi Cydraddoldeb, tra bod yna nifer o fentrau staff megis gweithio o gartref, rhannu car, defnyddio TGCh pan fo'n bosibl, ac ayyb. Serch hynny, roeddent angen adolygu'r polisiau hyn, eu diwygio a'u cymhwyso i'r swyddfa yn y DU; a dyna wnaeth y cwmni gyda chymorth Y Lab Cynaliadwyedd, yn ystod eu partneriaeth â phrosiect SEACAMS2.

Fe wnaeth Tocardo wella ei gynaliadwyedd trwy adolygu a diweddarau eu Polisi Amgylcheddol a Pholisi Cydraddoldeb, maen nhw hefyd wedi creu Polisi Iaith Gymraeg a Pholisi Recriwtio. Unwaith y bydd y swyddfa wedi'i sefydlu, bydd mentrau cynaliadwyedd pellach yn cael eu rhoi ar waith, maent hefyd wedi derbyn templed Côt Eco a thempled Cod Lles gan Y Lab Cynaliadwyedd.

Ynni Morol Cymru (MEW)

Ynni Morol Cymru a Fforwm Arfordirol Sir Benfro – Cyfathrebu Cynaliadwyedd



Menter a sefydlwyd ac sydd yn cael ei reoli gan Fforwm Arfordirol Sir Benfro (FfASB) yw Ynni Morol Cymru (YMC), a ffurfiwyd o ganlyniad i Ynni Morol Sir Benfro (YMSB) a sefydlwyd yn 2010. Mae Fforwm Arfordirol Sir Benfro yn gwmni buddiant cymunedol sy'n gweithio i ddiogelu a gwella'r amgylchedd arfordirol a morol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r



dyfodol. Mae YMC, fel roedd YMSB o'r blaen, yn allweddol wrth adeiladu cydweithredu cadarnhaol ac unigryw rhwng diwydiant, llywodraeth a'r byd academiaidd. Sefydlwyd YMC yn 2016 i wneud hyn ar lefel Cymru gyfan.

Mae gan y tîm YMC a FfASB ddyfnder arbenigedd yn y sector arfordirol ac maent yn ymfalchïo ar eu hagwedd 'gallu gwneud'. Mae'r cwmni'n cynnig ystod o wasanaethau i helpu sefydliadau a chymunedau i weithio'n well yn yr amgylchedd arfordirol, o gyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol ar fuddiannau arfordirol i ymgymryd â rheolaeth gynaliadwy rhanbarth y parth arfordirol.

Mae YMC a FfASB yn gweithio i helpu gwarchod a gwella'r amgylchedd morol a'r arfordir, ei dirweddau a'i morweddau, a bioamrywiaeth gyfoethog ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Eu huchelgais yw cael cymuned iach a gwydn ochr yn ochr ag economi arfordirol amrywiol a ffyniannus sy'n defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae gan y ddau YMC a FfASB gynaliadwyedd yn eu craidd, tra maent wedi ffurfioli eu harferion gwaith mewn polisiau a datganiadau, maent wedi cael eu cydnabod am eu gwaith da. Mae FfASB yn bartneriaeth arfordirol sydd wedi ennill llawer o wobrwyon, roeddent yn ennillwyr Gwobr Cynnal Cymru yn 2016, ac yn derfynol Gwobr Natura 2000 yr Undeb Ewropeaidd yn 2016. Maent wedi bod yn datblygu arferion gorau arloesol mewn rheolaeth arfordirol ers 2000.

Dywedodd David Jones, Cyfarwyddwr Prosiect

"Er bod cynaliadwyedd yn rhan annatod o'n gwaith, mae bob amser lle i adolygu a datblygu pethau'n bellach. Mae ymgysylltu â SEACAMS2 a'r Lab Cynaliadwyedd wedi rhoi amcanion clir i ni ar gyfer gwelliant parhaus"

Fel rhan o'u hymgyngoriad ymchwil gyda SEACAMS2, cydweithiodd YMC/ FfASB â'r Lab Cynaliadwyedd i wella eu cynaliadwyedd ymhellach. Penderfynwyd y bysant yn trefnu digwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adolygu eu holl bolisiau, er mwyn sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei gyfathrebu i staff, rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd. Mae gwaith hefyd wedi cychwyn ar greu llawlyfr staff.

